# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **27 MEDI 2010** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL – GORCHMYNION FFYRDD** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **YSTYRIED CRYNHOAD O'R ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL, AR GAIS Y CADEIRYDD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod o'r 1af Mehefin 2010 hyd at 31ain Awst 2010, mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Rheoleiddio fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd yn codi o'r adroddiad archwiliad "Gorchmynion Ffyrdd".

1.2 Mae crynhoad o'r adroddiad archwiliad mewnol wedi ei cynnwys yn yr atodiad.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn crynhoad yr adroddiad archwiliad mewnol, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisioes wedi'u cyflwyno i reolwyr yr Adran Rheoleiddio er gweithrediad.

## GORCHMYNION FFYRDD
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewn lle gogyfer mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd sirol Cyngor Gwynedd. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am orchmynion traffig ar gefnffyrdd Gwynedd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr archwiliad fydd adolygu gweinyddiaeth creu a mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd sirol yng Ngwynedd.

<u>Cefndir</u>
Mae Gorchymyn Rheolaeth Trafnidiaeth (Traffic Regulation Orders) yn rhoi pwerau cyfreithiol i Awdurdod Priffyrdd reoleiddio neu wahardd symudiadau trafnidiaeth ar ffyrdd. Maent yn ymroi i reoli cyflymder, symudiadau a pharcio cerbydau yn ogystal â rheoli symudiadau cerddwyr. Mae'r weithdrefn i wneud Gorchymyn wedi ei osod gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Amlinellir y weithdrefn isod:

- Rhaid ymgynghori yn gyntaf gydag amryw o gyrff statudol gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Gwasanaeth Ambiwlans, Cynghorydd, Cynghorwyr Lleol a'r Syrfëwr Ardal. Rhaid i'r Gwasanaeth ddelio gyda phob gwrthwynebiad sy'n cael ei dderbyn.
- Os na dderbynnir gwrthwynebiadau yn yr ymgynghoriad cychwynnol, neu os oes modd goresgyn y gwrthwynebiadau a dderbynnir, yna mae'r cynllun arfaethedig yn cael ei hysbysu am adwaith y cyhoedd am gyfnod o 3 wythnos;
- Os oes gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn yn un o'r ddau gymal cyntaf yna mae rhaid eu hystyried ac adrodd i'r Pwyllgor Ardal.
- Os nad oes gwrthwynebiadau, neu unwaith fo'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gellir gweithredu'r cynnig.

Yr amserlen debygol i weithredu cynnig heb unrhyw wrthwynebiad yw 26 wythnos.

Mae tri math o orchmynion:

- Parhaol
- Arbrofol – gallant fod yn weithredol am uchafswm o 18 mis, neu
- Dros Dro – eto gallant fod yn weithredol am uchafswm o 18 mis.

### <u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
**Cynhaliwyd profion archwilio ar 27 rheolaeth fewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 11 o'r meysydd hyn.**

### Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :
<u>Cyfarwyddiadau a anfonir at yr Uned Gyfreithiol yn anghywir.</u>

- Mae'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn anfon cyfarwyddyd at yr Uned Gyfreithiol pan fydd angen paratoi Gorchymyn. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys atodlen, cynllun lleoliad a rhestr wirio (checklist) ar gyfer y Gorchymyn arfaethedig. Archwiliwyd 10 o ffeiliau gorchmynion yn yr Uned Gyfreithiol a gwelwyd nad oedd y cyfarwyddyd ar restr wirio a dderbyniasant oddi wrth yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd ar gyfer paratoi dau orchymyn yn gywir.
- Ym mis Ebrill 2009 anfonodd yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd gyfarwyddyd at yr Uned Gyfreithiol er mwyn iddynt ddarparu gorchymyn 30 m.y.a. ar safle A493 Friog/ Rhoslefain ac yn datgan nad oedd angen diddymu gorchymyn blaenorol. Darganfuwyd gan yr Uned Gyfreithiol bod gorchymyn 40 m.y.a. wedi ei osod ar y ffordd ar y 1 Mai 1984 a bod angen ei ddiddymu.
- Ym mis Gorffennaf 2009 anfonwyd cyfarwyddyd i ddiddymu gorchymyn 40 m.y.a. dyddiedig 1990 a chreu gorchymyn newydd. Darganfuwyd gan yr Uned Gyfreithiol fod angen diddymu

rhan o orchymyn dyddiedig 1936 oedd hefyd ar y safle. Nid oedd yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn ymwybodol o'r gorchymyn hwn.

- Heblaw am ymwybyddiaeth yr Uned Gyfreithiol mae'n debygol y byddai gorchmynion dyblyg ar y safleoedd hyn heddiw. Mae hyn yn bryder i'r archwiliwr gan mai'r math hyn o gamgymeriadau arweiniodd at greu Gorchymyn Traffig dyblyg ym Mangor yn 2006.

<u>Diffyg polisi a chanllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer penderfynu gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.</u>

- Nid oes gan Cyngor Gwynedd ganllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer llunio, penderfynu a mabwysiadu Gorchmynion Traffig. Dywedodd Rheolwr Traffig a Datblygu fod yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn dilyn geiriad Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 y Llywodraeth i benderfynu, gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.

<u>Anodd olrhain hanes gweithrediad gorchymyn oherwydd y drefn ffeilio o fewn yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd.</u>

- Nid oes gan yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd unrhyw restr fyddai'n galluogi iddynt wirio cysondeb y Gorchmynion gyda'r Gorchmynion sy'n cael eu cadw gan yr Uned Gyfreithiol. Mae'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd ar hyn o bryd yn datblygu bas data er mwyn cofnodi datblygiad unrhyw orchymyn
- Mae bas data'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn cynnwys holl orchmynion ffyrdd a thraffig ac o ganlyniad nid yw'n rhwydd darganfod pa orchmynion sy'n ddi-rym a pha orchmynion sy'n weithredol. Mae'r Uned ar hyn o bryd yn datblygu bas data yn uniongyrchol ar gyfer gorchmynion cyflymder traffig.
- Cedwir copïau o'r gorchmynion a dderbynnir oddi wrth yr Uned Gyfreithiol ar ffeil Cynghorau Cymuned gyda thaflen mynegai ynghlwm i bob ffeil. Archwiliwyd 15 achos o greu gorchymyn i'r ffeiliau perthnasol a gwelwyd nad oedd copi o'r Gorchymyn Traffig ar gyfer 4 achos wedi ei roi yn y ffeiliau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau'r Adran Rheoleiddio gogyfer creu a gweithredu Gorchmynion Ffyrdd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau mai drwy lythyr neu e-bost yn unig y derbynnir ceisiadau am adolygu cyflymder safle.**
- **Dylid sicrhau fod pob cais am adolygu cyflymder yn cael ei gofnodi ar fas data pwrpasol.**
- **Dylid sefydlu canllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer penderfynu, gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.**
- **Dylid sefydlu trefn ffeilio fesul gorchymyn er mwyn galluogi olrhain unrhyw benderfyniad parthed gweithredu neu wrthod cais am newid cyfyngiadau cyflymder yn rhwydd.**
- **Dylid sicrhau fod tystiolaeth yn bodoli i gefnogi unrhyw benderfyniad am wrthod neu osod gorchymyn gan y Rheolwr.**
- **Dylai'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd sicrhau fod y cyfarwyddiadau a anfonir at yr Uned Gyfreithiol yn gywir.**
- **Dylai'r Uned Traffig a Gofal Stryd fod yn ymwybodol fod angen cadw ffeiliau gwaith gorchmynion parhaol am 25 mlynedd a ffeiliau gorchmynion dros dro am 7 mlynedd.**